OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 674

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 3

## Diwygio ymhellach Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018: ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

**13.** Ar ôl erthygl 6 mewnosoder—

"**Deunydd tramwy yr UE**

**6A.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson ddod ag unrhyw ddeunydd tramwy yr UE i mewn i borthladd gyrru mewn ac allan a leolir yng Nghymru oni fwriedir i'r deunydd hwnnw fynd i un man arolygu cymeradwy.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i erthygl 8(1).

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "porthladd gyrru mewn ac allan" yw—

(a) lleoliad rhestredig gyrru mewn ac allan o fewn ystyr rheoliad 130 o Reoliadau Tollau (Tollau Mewnforio) (Ymadael â'r UE) 2018; neu

(b) os nad yw hysbysiad wedi ei gyhoeddi yn unol â rheoliad 130(1) o'r Rheoliadau hynny, man cyrraedd—

(i) sydd yn bennaf yn gwasanaethu fferïau gyrru mewn ac allan sy'n gweithredu rhwng Cymru ac Aelod-wladwriaeth; a

(ii) sydd wedi ei restru mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.".